Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

# Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru

Medi 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.
© Hawlfraint y Goron 2024 WG5311 ISBN Digidol 978-1-80633-420-9

# 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru rhwng 30 Mehefin a 3 Gorffennaf 2025.

1.2 Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gan gynnwys swyddogaethau mewn perthynas â mabwysiadu, ar ran Gweinidogion Cymru yn unol ag Adran 149B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.3 Mae Cyfarwyddiadau Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015 yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd. Prif ddiben y cyfarwyddiadau hyn yw sicrhau bod trefniadau ar y cyd effeithiol ar waith rhwng awdurdodau lleol i sicrhau gwasanaethau mabwysiadu cyson ac effeithiol ledled Cymru. Mae Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol ledled Cymru yn rhan o strwythur tair haen i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru. Mae'r strwythur tair haen yn creu'r Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol. Er bod yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru, mae'n amlwg ei fod yn cael budd o'r cymorth a ddarperir gan strwythurau eraill yn y gwasanaeth cenedlaethol.

1.4 Mae Cydweithredfa Mabwysiadu Ranbarthol Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn cynnwys awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili, Casnewydd a Sir Fynwy. Awdurdod lleol Blaenau Gwent yw'r awdurdod lleol dan sylw ar gyfer y rhanbarth hwn.

1.5 Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar sut mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo llesiant a diogelwch plant drwy gynnig sefydlogrwydd gyda theuluoedd sy'n mabwysiadu, a all ddiwallu eu hanghenion yn ddiogel a gwella'r tebygolrwydd y byddant yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Gwnaethom werthuso'r trefniadau arwain a llywodraethu sy'n cefnogi'r broses o ddarparu'r gwasanaeth, a pha mor effeithiol yw'r trefniadau hynny o ran sicrhau canlyniadau o ansawdd da i blant.

1.6 Gwnaethom ystyried y cwestiynau allweddol canlynol o dan benawdau perthnasol.

**Llesiant**

- A gaiff anghenion llesiant y plant eu diogelu'n briodol wrth gael sefydlogrwydd?
- A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn hygyrch, yn ddiogel ac yn ymateb i anghenion y bobl?

**Gofal a Chymorth**

- A yw plant, y teulu biolegol a'r teulu sy'n mabwysiadu yn cyflawni canlyniadau da drwy'r cymorth a ddarperir, sy'n hybu eu llesiant cyffredinol?

**Arweinyddiaeth a Llywodraethu**

- A yw'r trefniadau arwain a llywodraethu yn sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau o ansawdd uchel?

1.7 Rhestr Terminoleg a Diffinio Meintiau Gweler Atodiad 2 a 3.

## 2. Crynodeb o ganfyddiadau'r arolygiad

2.1 Cefnogir Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru gan Fwrdd Rheoli Rhanbarthol sy'n cynnwys pum awdurdod lleol. Mae cytundeb partneriaeth a lofnodwyd ar waith, sy'n hyrwyddo cysondeb wrth ddarparu'r gwasanaeth drwy gyfraniadau ymarferwyr a chyfraniadau ariannol a rennir. Mae'r Bwrdd yn cyflawni swyddogaeth oruchwylio a llywodraethu strategol, ac yn golygu bod modd gwneud penderfyniadau ynglŷn â datblygu'r gwasanaeth, polisi a dyrannu adnoddau ar y cyd.

2.2 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn defnyddio canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a thempledi a gyhoeddwyd gan y Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol, sy'n cefnogi ymarfer cyson ledled y rhanbarth. Mae angen gwneud rhagor o waith ar rai dogfennau allweddol er mwyn sicrhau bod yr holl ofynion rheoliadol yn cael eu bodloni.

2.3 Mae'r asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr yn gadarn ac yn gynhwysfawr. Mae'r ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth gref o'u cyfrifoldebau diogelu, ac mae'r asesiadau'n gyson â safonau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

2.4 Mae'r prosesau paru wedi'u hategu gan adnoddau sy'n ystyriol o drawma a gwaith cydweithredol gyda chydweithwyr yn yr awdurdod lleol. Er bod y rhan fwyaf o achosion yn symud ymlaen yn briodol, mae lleiafrif yn nodi oedi ac amrywiadau mewn ansawdd dogfennau.

2.5 Caiff gwasanaethau cymorth mabwysiadu eu gwerthfawrogi ac maent yn cynnwys ymyriadau wedi'u harwain gan seicoleg, grwpiau cymorth cymheiriaid, a dulliau therapiwtig. Fodd bynnag, gall y gallu i fanteisio ar y rhain ddibynnu ar lefel y risg, ble mae'r plentyn wedi'i leoli a'r cymorth iechyd sydd ar gael. Mae rhestrau aros ar waith.

2.6 Mae'r ymarferwyr yn cael budd o gymorth gan gymheiriaid a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Dywedir bod yr arweinyddiaeth yn weladwy, yn canolbwyntio ar y plentyn, ac yn seiliedig ar ddiben. Fodd bynnag, mae anghysondebau mewn rai systemau cyfathrebu electronig mewnol a goruchwyliaeth gyfyngedig o'r trefniadau sicrhau ansawdd wedi'u nodi.

2.7 Mae recriwtio mabwysiadwyr yn bryderon allweddol o hyd. Er gwaethaf ymdrechion amlwg fel ymgyrchoedd wedi'u targedu ac ymgysylltu â chymunedau, nid yw Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru wedi datblygu cronfa ddigonol o fabwysiadwyr i ddiwallu anghenion plant hyd yma. Mae oedi cyn penodi swyddog recriwtio a diffyg strategaeth farchnata ddynamig wedi cyfrannu at hyn.

2.8 Mae'r systemau cofnodi yn ddiogel ac yn cefnogi'r broses o ddarparu'r gwasanaeth, ac mae'r ymarferwyr yn eu deall.

2.9 Mae'r staff cymorth busnes yn fedrus ac yn effeithiol. Mae gweithrediadau'r paneli yn drefnus ac yn canolbwyntio ar blant a rhieni sy'n mabwysiadu, ac mae diwylliant o wella'n barhaus.

2.10 Nid oes cynllun busnes strategol ar gyfer y gwasanaeth cyfan ar waith eto.

2.11 Nid yw safle presennol Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn gwbl addas ar gyfer anghenion y gwasanaeth.

## 3. Canfyddiadau

### Llesiant

3.1 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn gweithredu yn unol â chanllawiau, polisïau, gweithdrefnau a thempledi'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'r bobl yn wybodus ac mae'r ddogfennaeth yn hygyrch.

3.2 Roedd 19% o'r ymarferwyr yn anghytuno bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n weithredol. Nid yw Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn hyrwyddo'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn gyson yn unol â fframwaith *Mwy na Geiriau.* Er bod y rhan fwyaf o'r ddogfennaeth yn cynnwys y wybodaeth ofynnol, nid yw'r Datganiad o Ddiben yn bodloni'r gofynion rheoliadol yn llawn. Rhaid iddo gael ei ddiweddaru i gynnwys meini prawf cymhwystra ac adran fanylach ar gwynion. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod pob dogfen allweddol yn bodloni gofynion rheoliadol a bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei hyrwyddo'n glir.**

3.3 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn darparu amrywiaeth dda o ddogfennaeth i helpu pobl i ddeall y broses fabwysiadu. Mae gwybodaeth ar gael mewn fformatau amrywiol, ac roedd 100% o'r ymarferwyr a gwblhaodd arolwg ymarferwyr AGC yn cytuno bod y wybodaeth hon yn amserol ac yn hygyrch. Fodd bynnag, mae'r gallu i gael deunyddiau wedi'u cyfieithu yn aml yn dibynnu ar bobl yn gwneud ceisiadau penodol. **Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn darparu ymateb amserol i ddarpar fabwysiadwyr. Dylid mynd ati'n rhagweithiol i gynnig gwybodaeth yn newid iaith a fformat pobl.**

3.4 Mae ymarferwyr Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn dangos ymrwymiad cryf i eirioli dros blant a theuluoedd. Mae'r ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd biolegol ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio eiriolaeth ffurfiol lle y bo'n briodol, gan gynnwys ar gyfer rhieni ag anghenion dysgu ychwanegol. Dangosodd yr ymatebion i'r arolwg ymarferwyr fod 81% naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf fod cymorth eiriolaeth yn cael ei gynnig lle y bo'n berthnasol. Mae hyn yn cefnogi ymarfer cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

3.5 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn hyrwyddo llais a hawliau teuluoedd biolegol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud ymdrechion parhaus i ymgysylltu â rhieni biolegol, yn rhoi gwybodaeth glir ar arwyddocâd cyfreithiol

mabwysiadu, ac yn hwyluso grŵp cymorth i rieni biolegol. Mae'r ymarferwyr yn dangos sensitifrwydd a pharch wrth eu gwaith, a defnyddir eiriolaeth yn briodol, gan gynnwys ar gyfer rheini ag anghenion ychwanegol.

3.6 Mae'r asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr yn gadarn ac yn gynhwysfawr. Mae'r ffeiliau achos yr edrychwyd arnynt a'r hyn a welwyd wrth arsylwi ar baneli yn cadarnhau bod asesiadau yn fanwl, yn ddadansoddol, ac yn dangos ffocws clir ar anghenion y plentyn. Mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r dull strwythuredig o gynnal asesiadau, a ategir gan drefniadau goruchwylio a sicrhau ansawdd rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod mabwysiadwyr wedi'u paratoi'n dda i ddiwallu anghenion plant y mae angen lleoliad mabwysiadu arnynt, a bod cryfderau a gwendidau yn cael eu nodi'n glir i lywio penderfyniadau paru.

3.7 Mae ymarferwyr ym mhob rhan o'r gwasanaeth yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau diogelu. Mae hyn yn amlwg mewn cyfweliadau, a chafodd ei ategu gan ymatebion ymarferwyr yn arolwg staff AGC.

3.8 Mae'r ymarferwyr yn cael amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi. Roedd 92% o'r ymarferwyr a arolygwyd yn cytuno eu bod wedi cael cyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol da. Mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a roddir gan y tîm Seicoleg, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, rhieni sy'n mabwysiadu, a gweithwyr cymorth rhieni biolegol. Dywed mabwysiadwyr fod yr hyfforddiant yn agored, yn onest, ac yn eu helpu i ddeall trefniadau cyswllt modern ac effaith trawma ar blant.

3.9 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn ymgorffori fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, sy'n anelu at leihau oedi a hyrwyddo sefydlogrwydd drwy leoli plant gyda gofalwyr parhaol posibl cyn gynted â phosibl. Mae'r ymarferwr yn dangos ymwybyddiaeth o'r fframwaith a'r buddiannau bwriadedig. Mae tystiolaeth yn dangos ymarfer sy'n datblygu, gan gynnwys penderfyniadau cymeradwyo amserol a threfniadau panel deuol. Mae'r ymarferwyr yn cydnabod bod angen paratoi'n ofalus a chefnogi gofalwyr yn barhaus, yn enwedig lle mae ansicrwydd o hyd ynglŷn â phenderfyniadau ynghylch sefydlogrwydd. Wrth i'r defnydd o fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru gynyddu, **dylai Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru barhau i feithrin gwydnwch gofalwyr a sicrhau bod cymorth priodol ar waith.**

## Gofal a Chymorth

3.10 Caiff proffiliau plant eu datblygu yn unol â disgwyliadau cenedlaethol. Caiff gweithgarwch dod o hyd i deuluoedd ei ategu gan gyfarfodydd olrhain misol â phob awdurdod lleol, a chaiff gwybodaeth gynnar ei rhannu er mwyn cefnogi gwaith cynllunio amserol. Mae enghreifftiau o broffiliau wedi'u hysgrifennu'n dda ar Link Maker ac ymgysylltu rhagweithiol â gofalwyr maeth i lywio'r broses baru. Fodd bynnag, nododd rhai ymarferwyr oedi cyn lanlwytho proffiliau ac amrywiadau o ran lefel y cyfathrebu. At hynny, roedd rhai o'r ffeiliau a welsom yn dangos oedi sylweddol y gellid bod wedi ei osgoi. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod gweithgarwch dod o hyd i deuluoedd yn amserol bob amser a bod proffiliau plant yn cael eu rhannu'n ddi-oed**

3.11 Mae darpar fabwysiadwyr yn cael budd o raglen hyfforddi fyfyriol ac wedi'i strwythuro'n dda, a ddarperir fel rhan o broses asesu gynhwysfawr. Mae'r hyfforddiant cyn cymeradwyo yn cynnwys cyfraniadau gan rieni sy'n mabwysiadu, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a gweithwyr cymorth rhieni biolegol, sy'n cynnig safbwyntiau eang a realistig ar fabwysiadu. Dywedodd mabwysiadwyr fod yr hyfforddiant wedi eu helpu i ddeall effaith trawma, pwysigrwydd hunaniaeth, a natur esblygol trefniadau cyswllt. Dywedodd un rhiant sy'n mabwysiadu fod y profiad yn ***“absolutely life changing and really proud to have chosen SEWAS,”*** gan adlewyrchu graddau'r cymorth a'r paratoi a ddarparwyd gan y gwasanaeth. **Mae hyn yn un o gryfderau'r gwasanaeth.**

3.12 Mae gan Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru systemau ar waith i gefnogi'r broses baru, gan gynnwys cyfarfodydd olrhain misol, gwaith proffilio cynnar, ac adnoddau sy'n ystyriol o drawma fel amserlenni meithrin a diwrnodau “Deall y Plentyn ” Mae'r systemau hyn yn helpu i lywio penderfyniadau paru ac yn helpu mabwysiadwyr i ddeall anghenion plant. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos amrywiadau o ran amseroldeb rhai prosesau paru ffurfiol, gan gynnwys defnydd anghyson o Link Maker ac oedi cyn symud ymlaen i'r panel. Nid yw adnoddau sy'n ystyriol o drawma yn cael eu defnyddio'n gyson ym mhob rhan o'r gwasanaeth eto, yn enwedig ar gyfer plant dan ddwy oed. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru wella'r ffordd mae'n sicrhau bod gweithgarwch paru yn amserol bob amser a dylai ddefnyddio adnoddau sy'n ystyriol o drawma yn effeithiol ar gyfer pob plentyn.**

3.13 Mae tystiolaeth o gydweithio effeithiol rhwng Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru a gweithwyr cymdeithasol plant, ac mae ymgysylltu cynnar yn helpu i lywio'r broses o gynllunio lleoliadau. Fodd bynnag, nododd ymarferwyr amrywiadau o ran ansawdd Adroddiadau Mabwysiadu Plant. Er bod atodiadau'n cael eu defnyddio i ddiweddaru gwybodaeth, gall y fformat ganolbwyntio ar fodloni gofynion y llys yn hytrach na hyrwyddo llais y plentyn a'i

brofiadau bywyd. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru barhau i weithio gyda chydweithwyr yn yr awdurdod lleol i sicrhau bod dogfennaeth baru yn canolbwyntio ar y plentyn bob amser ac yn llywio'r broses o gynllunio lleoliadau.**

3.14 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn helpu plant i bontio i leoliadau mabwysiadu drwy waith cynllunio hyblyg sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau lle roedd y pontio'n digwydd ar gyflymder a oedd yn addas i anghenion y plant a lle roedd y mabwysiadwyr yn cael y wybodaeth briodol. Mae gofalwyr maeth yn chwarae rôl werthfawr wrth gefnogi trefniadau pontio. Dywedodd un rhiant sy'n mabwysiadu fod ei blentyn "continues to feel comfort from both the [photo] book and the teddy, possibly because it's a connection between where he was and where he is now". Mae enghreifftiau o drefniadau pontio wedi'u rheoli'n dda, gan gynnwys gwaith paratoi cadarn a chymorth ar gyfer y plant a'r gofalwyr. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o'r ffeiliau achos a welwyd ac adborth gan randdeiliaid yn dangos nad yw ansawdd ac amseroldeb gwaith cynllunio trefniadau pontio yn gyson ym mhob achos. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru barhau i adeiladu ar yr ymarfer da presennol drwy sicrhau bod trefniadau pontio bob amser yn amserol, wedi'u cydgysylltu'n dda, ac yn cynnwys pob parti perthnasol, gyda chyfathrebu clir a chynlluniau wedi'u teilwra at anghenion unigol pob plentyn.**

3.15 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn datblygu cynlluniau cymorth mabwysiadu ar y cyd â mabwysiadwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol, gan eu teilwra at anghenion pob plentyn. Mae cynlluniau sy'n seiliedig ar fewnbwn seicolegol lle y bo'n briodol, gan adlewyrchu dull sy'n ystyriol o drawma. **Mae hyn yn arfer da.** Fodd bynnag, mae ansawdd ac amseroldeb cynlluniau cymorth mabwysiadu yn amrywio, ac nid oedd rhai cynlluniau yn ddigon manwl neu'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod cynlluniau cymorth mabwysiadu bob amser yn gadarn, yn cael eu hadolygu mewn modd amserol, ac yn cyd-fynd yn glir ag anghenion newidiol y plentyn.**

3.16 Caiff gwaith stori bywyd ei werthfawrogi a'i ymgorffori'n gynyddol mewn ymarfer. Mae enghreifftiau o ddeunyddiau sensitif ac wedi'u strwythuro'n dda, gyda chyfraniadau ystyrlon gan ofalwyr a rhieni biolegol. Caiff ansawdd a chysondeb ei fonitro. Fodd bynnag, mae oedi cyn cwblhau gwaith stori bywyd o hyd. Nid yw llais y plentyn bob amser yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn yr Adroddiadau Mabwysiadu Plant. Mae ansawdd llythyrau yn ddiweddarach mewn bywyd yn amrywio ac nid ydynt bob amser yn portreadu teuluoedd biolegol mewn ffordd sensitif. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru barhau i gefnogi'r broses o gwblhau gwaith stori bywyd, gan**

**sicrhau ei fod yn amserol, yn hygyrch ac yn adlewyrchu llais a hunaniaeth y plentyn yn gyson.**

3.17 Mae amrywiaeth o wasanaethau cymorth mabwysiadu ar gael ledled y rhanbarth, gan gynnwys ymyriadau sy'n seiliedig ar seicoleg, dulliau therapiwtig fel Therachwarae a grwpiau cymorth cymheiriaid. Dywedodd un rhiant fod sesiynau Aros a Chwarae (sesiynau cymorth mabwysiadu anffurfiol i rieni sy'n mabwysiadu a'u plant) yn "**invaluable source of support**". Mae'r gwasanaethau hyn yn cyfrannu at sefydlogrwydd lleoliadau ac mae mabwysiadwyr yn eu gwerthfawrogi. **Mae hyn yn arfer da.** Fodd bynnag, er bod mynediad cychwynnol at wasanaethau cymorth yn gyson ar y cyfan, mae rhestrau aros ar waith mewn rhai meysydd a gall y gallu i gael cymorth ddibynnu ar y risg y bydd lleoliad yn chwalu, p'un a yw plentyn wedi'i leoli yn y rhanbarth, ac argaeledd gwasanaethau gofal iechyd. Cyfeiriodd yr ymarferwyr at alw cynyddol am gymorth ar ôl mabwysiadu a mynegwyd pryderon am gynaliadwyedd y trefniadau presennol. Mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol ond mae'n tynnu sylw at yr angen am waith cynllunio strategol lleol i sicrhau cynaliadwyedd. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn cael eu darparu'n deg ac mewn modd amserol.**

3.18 Caiff pwysigrwydd cyswllt fel rhan o ymarfer mabwysiadu modern ei hyrwyddo'n strategol, ac mae'r gwasanaeth yn dechrau rhoi hyn ar waith mewn ymarfer o ddydd i ddydd. Mae rhai ymarferwyr yn cynnal trafodaethau cynnar sy'n canolbwyntio ar y plentyn gyda mabwysiadwyr am amrywiaeth o opsiynau cyswllt, gan gynnwys blwch llythyrau, negeseuon fideo, a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Er bod enghreifftiau cadarnhaol yn amlwg, roedd ansawdd a chysondeb trefniadau yn amrywio. Mae'n amlwg bod Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru wedi dechrau gwaith gwella yn y maes hwn. **Felly, dylai Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru barhau i atgyfnerthu'r broses weithredol o roi ei weledigaeth strategol ar waith, gan sicrhau bod ymarfer yn cyd-fynd yn gyson â chanllaw ymarfer da y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyswllt.**

3.19 Caiff cymorth i deuluoedd biolegol ei hyrwyddo drwy weithiwr yn y tîm cymorth mabwysiadu. Caiff cymorth ei gynnig mewn ffordd sensitif a chyflym sy'n hyblyg ac yn briodol i bob unigolyn. Mae hyn yn cynnwys cymorth i ddeall y broses fabwysiadu a chyfarfodydd hwyluso gyda darpar fabwysiadwyr. Roedd yr ymarferwyr yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith hwn o ran cefnogi hunaniaeth plant a'u hunaniaeth hirdymor. Nododd gweithgarwch archwilio gwybodaeth ychwanegol diweddar effaith gadarnhaol y gwaith hwn, gan gynnwys adborth gan rieni biolegol ac enghreifftiau o gyfarfodydd â chymorth yn cyfrannu at ddeunyddiau taith bywyd.

3.20 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn caniatáu i oedolion sydd wedi cael eu mabwysiadu weld eu cofnodion mabwysiadu ac yn cynnig cymorth yn unol â gofynion deddfwriaethol. Ymdrinnir â cheisiadau i weld cofnodion mewn modd sensitif, ac mae'r ymarferwyr yn cydnabod cymhlethdod emosiynol y gwaith hwn. Ar gyfer unigolion a fabwysiadwyd cyn 30 Rhagfyr 2005, gall Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru ddarparu gwasanaethau cyfryngol lle y bo'n briodol. Ar gyfer unigolion a fabwysiadwyd wedi hynny, mae'r gwasanaeth yn cefnogi mynediad at wybodaeth yn unol â rheoliadau ôl-gychwyn. Pwysleisiodd yr ymarferwyr bwysigrwydd sicrhau bod cofnodion yn gywir, yn barchus ac yn hygyrch, bod y galw am gael gweld cofnodion yn cynyddu, a bod rhestr aros. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru barhau i ystyried yr adnoddau y bydd eu hangen yn y dyfodol mewn perthynas â chofnodion mabwysiadu yn llawn.**

3.21 Mae trefniadau panel effeithiol ar waith yng Ngwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, gyda mynediad at gyngor cyfreithiol a meddygol. Mae cworwm yn y paneli bob amser, ac maent yn cynnwys aelodau sy'n meddu ar brofiad proffesiynol a phrofiad bywyd perthnasol. Caiff darpar fabwysiadwyr eu cefnogi i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd ac i fynegi eu barn, ac mae cadeiryddion paneli yn cynnig sicrwydd cyn cyfarfodydd. Dywedodd aelodau'r panel fod y prosesau paru yn drylwyr, a bod amserlenni meithrin a thrawma yn eu helpu i ddeall profiadau bywyd y plant. Mae cynghorwyr meddygol yn darparu mewnbwn manwl, ac mae cofnodion y paneli yn dangos craffu cymesur sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae aelodau'r panel hefyd yn cyfrannu at brosesau sicrhau ansawdd ac yn cael hyfforddiant rheolaidd, gan gynnwys hyfforddiant ar darfu a diogelu. **Mae hyn yn arfer da.**

3.22 Mae'r trefniadau ar gyfer Penderfynwr Asiantaeth yn glir ac wedi'u deall ledled y rhanbarth. Caiff penderfyniadau cymeradwyo eu rheoli'n ganolog gan Bennaeth Gwasanaethau Plant Blaenau Gwent, a chaiff penderfyniadau paru eu gwneud gan Benderfynwr Asiantaeth yr awdurdod lleol perthnasol. Mae'r pwyllgor rheoli rhanbarthol yn darparu goruchwyliaeth ac yn hyrwyddo cysondeb. Mae grŵp Penderfynwyr Asiantaeth cenedlaethol wedi'i sefydlu i gefnogi'r broses o rannu gwersi a ddysgwyd a chysoni â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

3.23 Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn dangos gweledigaeth ac uchelgais glir ar gyfer y gwasanaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymarferwr ym mhob tîm fod Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn wasanaeth cydlynol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sydd ag ymdeimlad cryf o ddiben. Mae'r arweinwyr

yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt, a dywedwyd eu bod yn wybodus ac yn gefnogol. Mae'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod lefelau uchel o forâl ac ymrwymiad. Ar y cyfan, dywedwyd bod ethos y gwasanaeth yn gynhwysol, yn fyfyriol, ac yn canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau gorau i blant. **Mae hyn yn arfer da.**

3.24 Mae'r trefniadau llywodraethu yn helpu'r gwasanaeth i weithredu'n ddidrafferth. Mae'r pwyllgor rheoli rhanbarthol wedi'i sefydlu'n dda ac yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r pum awdurdod lleol, yn ogystal â phartneriaid iechyd, addysg a phartneriaid yn y sector gwirfoddol. Ceir presenoldeb da mewn cyfarfodydd ac maent yn cynnig fforwm i drafod yn agored, herio a rhannu penderfyniadau. Cafodd y cytundeb partneriaeth ei adolygu a'i ddiweddaru'n ddiweddar. Caiff y trefniadau goruchwylio strategol eu cefnogi gan adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ac ymrwymiad a rennir i wella'n barhaus.

3.25 Mae'r cynlluniau strategol yn seiliedig ar ddealltwriaeth o anghenion presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg. Mae cynllun gweithredol Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac yn cynnwys amcanion clir mewn perthynas â recriwtio, cymorth mabwysiadu cyswllt, a mynediad at gofnodion. Mae'r cynllun wedi'i strwythuro'n dda ac yn cynnwys atebolrwydd am gyflawni. Fodd bynnag, nid oes cynllun strategol rhanbarthol cyffredinol sy'n dwyn ynghyd flaenoriaethau Ymddiriedolaethau'r GIG, byrddau iechyd, ac adrannau addysg pob un o'r pum awdurdod lleol. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod cynllun strategol rhanbarthol yn cael ei ddatblygu i ategu'r cynllun gweithredol a helpu i gysoni adnoddau a threfniadau comisiynu ym mhob rhan o'r rhanbarth.**

3.26 Mae systemau sicrhau ansawdd a pherfformiad ar waith ond nid ydynt wedi'u hymgorffori'n llawn eto. Mae tystiolaeth o adnoddau archwilio ac enghreifftiau achos yn dangos bod rhywfaint o weithgarwch sicrhau ansawdd yn cael ei gwblhau, gan gynnwys archwiliadau cau a dadansoddi cymorth rhieni biolegol. Mae'r archwiliadau hyn yn dangos ymarfer myfyriol a diwylliant dysgu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fframwaith sicrhau ansawdd ffurfiol sy'n benodol i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru, ac nid yw'n glir pa mor aml y mae archwiliadau'n cael eu cynnal na pha mor gyson ydynt. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru roi fframwaith sicrhau ansawdd strwythuredig ar waith er mwyn sicrhau goruchwyliaeth gyson a gwelliant parhaus ym mhob un o feysydd y gwasanaeth.**

3.27 Darperir y gwasanaeth gan weithlu cymwysedig, profiadol a sefydlog. Nid oes unrhyw swyddi gwag, ac mae'r gwasanaeth wedi'i strwythuro'n dri thîm clir sydd â rolau digon eang. Cyfeiriodd yr ymarferwyr at gydlyniant tîm, goruchwyliaeth

effeithiol, a'r gallu i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a datblygu. Dywedwyd bod y rheolwyr yn gefnogol ac ar gael, ac roedd yr ymarferwyr yn teimlo'n hyderus i godi pryderon neu geisio arweiniad. Ni nodwyd pryderon ynglŷn â recriwtio a chadw, ac roedd penodiadau diweddar yn cynnwys cyn-fyfyriwr a oedd yn dychwelyd i'r gwasanaeth.

3.28 Mae recriwtio mabwysiadwyr yn dal i beri pryder sylweddol. Er gwaethaf ymdrechion fel ymgyrchoedd wedi'u targedu, hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol, ac ymgysylltu â chymunedau, nid yw Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru wedi datblygu cronfa ddigonol o fabwysiadwyr i ddiwallu anghenion amrywiol a chymhleth plant. Mae'r prinder hwn yn cyfrannu at oedi o ran sicrhau sefydlogrwydd, a all gael effaith sylweddol ar sefydlogrwydd hirdymor a llesiant emosiynol plant. Er y cydnabyddir bod hyn yn broblem genedlaethol, mae ffactorau lleol wedi ychwanegu at yr her. Mae oedi cyn penodi swyddog recriwtio a diffyg strategaeth farchnata ddynamig a gaiff ei hadolygu'n rheolaidd wedi cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i ymateb yn hyblyg i anghenion sy'n dod i'r amlwg. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod ei strategaeth farchnata yn gadarn ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn cefnogi ei ymrwymiad i recriwtio nifer digonol o fabwysiadwyr.**

3.29 Mae rolau a chyfrifoldebau ym mhob rhan o Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru wedi'u diffinio a'u deall yn dda. Disgrifiodd yr ymarferwyr ddealltwriaeth glir o'u rôl o fewn y strwythur rhanbarthol a'r ffordd y mae eu gwaith yn cyfrannu at y gwasanaeth ehangach. Mae dogfennau llwybrau a siartiau llif yn cefnogi disgwyliadau ar bob cam o'r broses fabwysiadu, gan gynnwys amserlenni a chyfrifoldebau diogelu. Er bod canllawiau wedi'u datblygu'n dda mewn rhai meysydd fel dod o hyd i deuluoedd a chynllunio trefniadau pontio, nid ydynt wedi'u hymgorffori'n gyson ym mhob un o feysydd y gwasanaeth eto. Er enghraifft, byddai ffurfioli fframwaith sicrhau ansawdd, gwaith taith bywyd, a threfniadau cyswllt a'u cymhwyso'n fwy cyson yn fuddiol. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod canllawiau cyfredol clir ar waith ar gyfer y meysydd hyn, a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u rhoi ar waith yn gyson ym mhob rhan o'r gwasanaeth i gefnogi ymarfer.**

3.30 Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu yn glir ac wedi'u hymgorffori mewn ymarfer. Dangosodd yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau diogelu a throthwyon. Caiff pryderon diogelu eu trafod yn ystod sesiynau goruchwylio a'u huwchgyfeirio'n briodol. Mae'r rheolwr rhanbarthol yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu materion diogelu, a chaiff gwersi a ddysgwyd o adolygiadau ymarfer plant eu rhannu ledled y gwasanaeth. **Mae hyn yn un o gryfderau'r gwasanaeth.**

3.31 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru wedi sefydlu prosesau clir ar gyfer rheoli achosion o darfu ar leoliadau mabwysiadu. Caiff cyfarfodydd tarfu eu cadeirio'n annibynnol a'u cynnal yn gyflym, gan ganolbwyntio ar ddysgu yn hytrach na rhoi bai. Mae archwiliad diweddar o achosion o darfu wedi llywio'r broses o ddatblygu'r gwasanaeth, ac mae canfyddiadau'n cael eu rhannu â thimau ac aelodau panel. Mae hyfforddiant a gynlluniwyd a chynnwys cofnodion cyfarfodydd tarfu ym musnes y panel fel mater o drefn yn cefnogi dull myfyriol y caiff ei ansawdd ei sicrhau ymhellach. **Mae hyn yn un o gryfderau'r gwasanaeth a dylai barhau.**

3.32 Mynegodd ymarferwyr bryderon am effaith yr amgylchedd swyddfa presennol ar lesiant a darpariaeth y gwasanaeth. Nid oes golau naturiol ar y safle ac mae sŵn yn cario o gyfleusterau cyfagos, ac nid oes mynediad i rieni biolegol nac ardal ddigonol i gynnal gwaith grŵp. Er bod trefniadau gweithio o bell yn helpu i liniaru rhai o'r materion hyn, nid yw'r safle yn cefnogi'r amrywiaeth lawn o weithgareddau'r gwasanaeth. Cafodd y gwasanaeth ei adleoli yn dilyn ymarfer arbed costau rhanbarthol. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru adolygu addasrwydd y safle presennol ac ystyried opsiynau i wella hygyrchedd, llesiant, a'r gallu i gyflawni gwaith uniongyrchol ar gyfer ymarferwyr yn ogystal â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth**

3.33 Mae systemau ar gyfer storio a rheoli cofnodion yn ddiogel ar waith. Mae'r ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth glir o ofynion diogelu data, ac mae cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel yn unol â'r polisi. Dywedir bod cymorth busnes yn un o gryfderau'r gwasanaeth, ac mae'r ymarferwyr yn hyderus o ran y systemau a ddefnyddir i reoli gwybodaeth a gohebiaeth am achosion. Caiff cyswllt blwch llythyrau ei reoli drwy'r system dyletswyddau, sy'n sicrhau parhad a hygyrchedd i fabwysiadwyr. Fodd bynnag, nododd cwynion diweddar anghysondebau o ran y ffordd mae dewisiadau cyswllt yn cael eu cofnodi a'u rhoi ar waith. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod trefniadau cyswllt bob amser yn cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u rhannu â'r tîm.**

## 4. Meysydd Blaenoriaeth i'w Gwella

4.1 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau y caiff y Datganiad o Ddiben ei adolygu bob blwyddyn a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn unol â'r disgwyliadau rheoliadol yn Rheoliad 4 ac Atodlen 1 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019. Hefyd, pan gaiff y datganiad o ddiben ei adolygu nesaf, rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru hysbysu AGC yn unol â Rheoliad 5(3) a (6) o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.2 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael eu hyrwyddo'n gyson a bod yr holl ddogfennau allweddol yn bodloni gofynion rheoliadol, gan gynnwys sicrhau eu bod ar gael mewn fformatau hygyrch yn unol â Rheoliad 4 a 12 ac Atodlen 1 i Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.3 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod ei strategaeth farchnata yn gadarn ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn cefnogi ei awydd i recriwtio nifer digonol o fabwysiadwyr yn unol â Chyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015.

4.4 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod gweithgarwch paru yn cael ei gynnal mewn modd amserol bob amser yn unol â Rheoliad 36 a 17 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

4.5 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau y caiff gwasanaethau cymorth mabwysiadu eu darparu mewn modd teg ac amserol yn ardal pob awdurdod lleol yn unol â Rheoliad 16 a 17 o Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 a Chyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015.

4.6 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru roi fframwaith sicrhau ansawdd strwythuredig ar waith er mwyn sicrhau goruchwyliaeth gyson a gwelliant parhaus ym mhob un o feysydd y gwasanaeth yn unol â Rheoliad 39(1) a Rheoliad 6 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

## 5. Argymhellion

5.1 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chynnig yn weithredol yn y iaith a’r fformat a ffefrir gan bobl.

5.2 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru barhau i atgyfnerthu ei ddefnydd o fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru er mwyn sicrhau gwaith cynllunio sefydlogrwydd cyson ac amserol.

5.3 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru barhau i weithio gyda chydweithwyr yn yr awdurdod lleol i sicrhau bod dogfennaeth baru yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn llywio'r broses o gynllunio lleoliadau yn gyson,

a bod adnoddau sy'n ystyriol o drawma yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau.

5.4 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru atgyfnerthu trefniadau pontio a sicrhau eu bod bob amser yn amserol, wedi'u cydgysylltu'n dda, ac yn seiliedig ar anghenion unigol y plant.

5.5 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod cynlluniau cymorth mabwysiadu bob amser yn gadarn, yn cael eu hadolygu mewn modd amserol, ac yn cyd-fynd yn glir ag anghenion newidiol y plentyn.

5.6 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru barhau i hyrwyddo trefniadau mabwysiadu modern sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn cael eu cofnodi'n glir, y caiff adnoddau priodol eu darparu ar eu cyfer.

5.7 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod gwaith stori bywyd yn amserol, yn hygyrch ac yn adlewyrchu llais a hunaniaeth y plentyn.

5.8 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod cynllun strategol rhanbarthol yn cael ei ddatblygu i ategu'r cynllun gweithredol a helpu i gysoni adnoddau a threfniadau comisiynu ym mhob rhan o'r rhanbarth, a'i fod yn cynnwys adrannau addysg, byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

5.9 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod canllawiau clir yn cael eu datblygu ar gyfer pob un o feysydd y gwasanaeth.

5.10 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru eirioli dros safle mwy addas i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

5.11 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod trefniadau cyswllt bob amser yn cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u rhannu â'r tîm.

5.12 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sicrhau bod gwaith cynllunio ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn y dyfodol yn seiliedig ar y galw presennol a'r galw a ragwelir, a bod digon o adnoddau ar gael i gyflawni cyfrifoldebau statudol a chefnogi mynediad amserol.

## 6. Y camau nesaf

6.1 Mae AGC yn ei gwneud y ofynnol i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru lunio cynllun gwella a'i rannu ag AGC erbyn 18/11/2025.

6.2 Bydd AGC yn adolygu'r cynllun gwella ac yn ceisio cael sicrwydd pellach o gynnydd. Gwneir hyn drwy gyfarfod â Phennaeth Gwasanaethau Plant yr

awdurdod lleol dan sylw ynghyd â'r Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol o fewn 18-24 mis i gyhoeddi'r adroddiad.

6.3 Bydd AGC yn ystyried gweithgarwch pellach er mwyn cael sicrwydd o welliant parhaus a bydd yn ystyried gweithgarwch ymgysylltu pwrpasol i gefnogi ei gwaith monitro parhaus.

## 7. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r ymarferwyr, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**



**Julie Heal**
Pennaeth Arolygu Gwasanaethau Oedolion a Phlant
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

# Atodiad 1

## Methodoleg

### Hunanwerthuso

- Gofynnwyd i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru gwblhau Hunanwerthusiad er mwyn myfyrio ar ei berfformiad ei hun mewn meysydd penodol o'r gwasanaeth.

### Gwaith maes

- Gwnaethom ystyried profiadau 20 o bobl drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 16 o gofnodion ac olrhain pedwar.
- Gall olrhain cofnod unigolyn gynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr cymdeithasol mabwysiadu, ei weithiwr cymdeithasol gofal plant, y rheolwr, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu â 10 o bobl sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr (gan gynnwys rhieni sy'n mabwysiadu, gofalwyr maeth ac oedolion sydd wedi cael eu mabwysiadu) drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws.
- Gwnaethom ymgysylltu â 40 o ymarferwyr a rheolwyr drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws. Roedd hyn yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol gofal plant, gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu, rheolwyr tîm, rheolwyr tîm cynorthwyol, cynrychiolydd asiantaeth fabwysiadu gwirfoddol, rheolwr mabwysiadu rhanbarthol a phennaeth gwasanaethau plant ar gyfer awdurdod lleol y Gydweithredfa Mabwysiadu Ranbarthol.
- Ni wnaethom siarad ag unrhyw aelodau etholedig.
- Gwnaethom ymgysylltu â naw gweithiwr cymdeithasol gofal plant a chynrychiolwyr o asiantaethau partner drwy gyfweliadau.
- Gwnaethom siarad â dau gadeirydd panel a phedwar aelod panel.
- Gwnaethom siarad â phedwar plentyn gyda'u rhieni mabwysiedig yn bresennol.
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio'r ymarferwyr.
- Gwnaethom edrych ar y dogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i ymarferwyr a rheolwyr Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru, sefydliadau partner a phobl. Cawsom ymatebion gan 26 o ymarferwyr/rheolwyr o Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru, 73 gan bobl a 37 gan randdeiliaid perthnasol. Cawsom saith ymateb gan deuluoedd biolegol.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

**Y Gymraeg**

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn.

## Atodiad 2

### Rhestr Terminoleg

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r Gydweithredfa Mabwysiadu Ranbarthol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r Gydweithredfa Mabwysiadu Ranbarthol yn cyflawni ei dyletswydd(au) statudol ar hyn o bryd a rhaid iddi weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd y Gydweithredfa Mabwysiadu Ranbarthol yn cyflawni ei dyletswydd(au) cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Arferion da** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn y Gydweithredfa Mabwysiadu Ranbarthol. Mae hyn yn golygu ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |

## Atodiad 3

**Tabl Diffiniadau o Niferoedd**

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Heb fawr ddim eithriadau |
| Rhan fwyaf | 99% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Ychydig | Llai nag 20% |
| Ychydig iawn | Llai na 10% |